Yr Adran
Drafnidiaeth

Gorchmynion y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd

Canllaw byr

Awst 2006

Am ymholiadau sy'n benodol i'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, gweler y wybodaeth gyswllt ar waelod tudalen 2.

Yr Adran Drafnidiaeth/Department for Transport
Great Minster House
76 Marsham Street
Llundain/London
SW1P 4DR

Ffôn 020 7944 8300

Gwasanaeth rhyngrwyd: ww.dft.gov.uk

ⓗ Hawlfraint y Goron 2006.

Mae hawlfraint yn y trefniant a'r dyluniad argraffyddol yn perthyn i'r Goron. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint y Goron gan nodi teitl a ffynhonnell y cyhoeddiad.

Cyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth.

Argraffwyd yn y DU Awst 2006 ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Cod cynnyrch 67DSG02648

Cyflwyniad

1 Gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (DTG) yw'r ffordd arferol o awdurdodi cynllun rheilffordd neu dramffordd newydd yng Nghymru a Lloegr. Yn y canllaw hwn, disgrifir mathau eraill o gynllun y gall gorchmynion DTG eu hawdurdodi.

2 Gwneir ceisiadau am orchmynion DTG, yn Lloegr, i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol ac, yng Nghymru, i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gwneir ceisiadau gan (neu ar ran) hyrwyddwyr y cynllun. Mae'r weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn yn caniatáu i unrhyw un â diddordeb gael dweud ei ddweud cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud eu penderfyniad.

3 Gall y mathau o gynllun y gall gorchymyn DTG eu hawdurdodi chwarae rôl bwysig iawn wrth wella seilwaith y wlad. Gall gwasanaethau cludiant cyhoeddus gwell, er enghraifft, helpu i leihau tagfeydd traffig, helpu pobl i gyrraedd eu cyrchfan yn gyflymach, a rhoi gwell ansawdd bywyd i bobl yn gyffredinol.

4 Fodd bynnag, gall cynlluniau a anfonir am gymeradwyaeth dan y DTG hefyd achosi gwrthwynebiadau gan bobl y mae'r cynlluniau'n effeithio ar eu heiddo neu fusnes, neu sy'n pryderu efallai am yr effaith ar yr amgylchedd lleol. Diben y weithdrefn yw galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, neu Lywodraeth Cynulliad Cymru, i benderfynu'n wybodus a yw er lles y cyhoedd i wneud y gorchymyn DTG.

5 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol neu Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried pob cais yn ofalus a heb ragfarn. Gwnânt benderfyniadau dim ond ar ôl ystyried yr holl sylwadau a wnaed – weithiau drwy ymchwiliad cyhoeddus.

Gallant wneud gorchmynion DTG (gyda newidiadau neu hebddynt) neu eu gwrthod.

6 Mae'r canllaw hwn yn egluro'r weithdrefn DTG i chi, drwy ddefnyddio cwestiynau ac atebion. Rydym wedi'i ysgrifennu'n bennaf er budd y rheiny sydd eisiau cymryd rhan yn y weithdrefn, neu sy'n ystyried gwneud hynny.

7 Os oes angen mwy o arweiniad ar y weithdrefn arnoch, neu eglurhad o unrhyw beth yn y llyfryn, rhowch wybod i ni. Mae ein manylion cyswllt isod. Fodd bynnag, sylwch na allwn drafod rhinweddau unrhyw achos penodol, nac awgrymu o gwbl beth y gallai'r penderfyniad fod.

Nodyn pwysig

8 Er ein bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y canllaw hwn yn gywir, nid yw'n gyfreithiol rwymol. Os hoffech gymryd rhan yn y broses DTG, dylech benderfynu a ddylech gael eich cyngor cyfreithiol neu gyngor proffesiynol arall eich hun.

Pwy ydyn ni?

9 Yr Uned Gorchmynion DTG yn yr Adran Drafnidiaeth ydyn ni. Gallwch gysylltu â ni yn:

The TWA Orders Unit/
Yr Uned Gorchmynion DTG
Department for Transport/
Yr Adran Drafnidiaeth
Zone 9/09, Southside
105 Victoria Street
London/Llundain SW1E 6DT

Ffôn: 020 7944 2474
020 7944 3196
020 7944 4929
020 7944 6912
Ffacs: 020 7944 9637

E-bost: transportandworksact@dft.gsi.gov.uk
Gwefan: www.dft.gov.uk/strategy/twa

Gweler C17 am fwy o wybodaeth am ein rôl.

Cwestiynau ac atebion

Rhan 1 – Cyffredinol

C1 Beth yw gorchymyn DTG?

Gall gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (y DTG) awdurdodi cynlluniau trafnidiaeth dan arweiniad (gweler C2) a rhai mathau eraill o brosiect seilwaith yng Nghymru a Lloegr.

Yn aml, mae angen ystod o bwerau ar hyrwyddwyr y math hwn o gynlluniau er mwyn rhoi eu cynllun ar waith.

O dan y DTG, gall hyrwyddwr ymgeisio i'r Ysgrifennydd Gwladol (neu i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynlluniau sy'n gyfan gwbl yng Nghymru) am orchymyn sy'n rhoi'r pwerau hynny. Mae'r gorchymyn, os caiff ei wneud, yn cael ei alw'n orchymyn DTG.

Gall y pwerau y gellir eu rhoi mewn gorchymyn DTG fod yn bellgyrhaeddol iawn. Er enghraifft, efallai bydd angen pwerau gorfodol i brynu tir neu gau strydoedd ar hyrwyddwr cynllun rheilffordd neu dramffordd newydd. Gall orchymyn DTG ganiatáu'r pwerau hyn.

Drwy roi'r cynllun ar waith, gallai effeithio ar fwynhad pobl o'u heiddo ac effeithio ar yr amgylchedd. Yn sgil hyn, mae'n rhaid i geisiadau am orchmynion DTG ddilyn gweithdrefn benodol sy'n caniatáu pobl i fynegi eu barn am y cynigion.

C2 Pa fath o gynllun y gall orchymyn DTG ei gynnwys?

Gall gorchmynion o dan y DTG fod yn gysylltiedig ag adeiladu neu weithredu'r mathau canlynol o system drafnidiaeth:

- rheilffyrdd a thramffyrdd;

- bysiau a arweinir yn allanol, trenau un gledren a rhai mathau eraill o drafnidiaeth a arweinir; a
- systemau cerbyd troli.

Gall gorchmynion DTG fod yn gysylltiedig hefyd ag:

- adeiladu neu weithredu dyfrffordd fewndirol; a
- rhai mathau o weithfeydd sy'n ymyrryd â hawliau mordwyo mewn dyfroedd hyd at derfynau'r môr tiriogaethol. Mae'r rhain yn cynnwys pontydd, glanfeydd, argaeau, twneli, ffermydd gwynt ar fôr ac ati.

C3 Pwy sy'n gallu ymgeisio am orchymyn DTG?

Nid yw'r DTG yn cyfyngu ar bwy sy'n gallu ymgeisio am orchymyn. Gallant fod yn gwmnïau preifat ac yn awdurdodau cyhoeddus.

Ymgeiswyr nodweddiadol am orchmynion DTG yw Network Rail, gweithredwyr cludiant teithwyr, London Underground, awdurdodau lleol, gweithredwyr preifat rheilffyrdd treftadaeth a hamdden, a chwmnïau preifat sydd eisiau datblygu cynlluniau trafnidiaeth a arweinir neu weithfeydd sy'n ymyrryd â hawliau mordwyo.

C4 Pwy sy'n penderfynu gwneud gorchymyn DTG ai peidio?

Yn Lloegr yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol sy'n penderfynu gwneud gorchymyn neu beidio. Er enghraifft, os yw'r cynllun at ddiben trafnidiaeth, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yw hwn. Mae hysbysiadau cyhoeddus, a gyhoeddir cyn ac ar ôl gwneud cais, yn dweud pa Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn gwneud y penderfyniad.

Yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n penderfynu gwneud gorchmynion DTG neu beidio. Mae cyfeiriadau yng ngweddill y canllaw hwn at 'yr Ysgrifennydd Gwladol' yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru.

C5 Beth y gall orchymyn DTG ganiatáu i hyrwyddwr ei wneud?

Mae'r mathau o faterion y gall gorchymyn DTG eu hawdurdodi'n cynnwys:

- pwerau i adeiladu, newid, cynnal a gweithredu system drafnidiaeth neu ddyfrffordd fewndirol;
- pwerau i wneud a defnyddio gweithfeydd sy'n ymyrryd â hawliau mordwyo;
- pwerau gorfodol i brynu tir;
- yr hawl i ddefnyddio tir (er enghraifft, ar gyfer mynediad neu ar gyfer safle gwaith);
- newidiadau i ddeddfwriaeth arall, neu ei gwahardd;
- cau neu newid ffyrdd a llwybrau troed;
- darparu llwybrau amgen dros dro;
- dulliau diogelu i ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus ac eraill; a
- phwerau i wneud is-ddeddfau.

Dim ond enghreifftiau nodweddiadol yw'r rhain – nid yw'n rhestr gyflawn. Rhaid bod y pwerau yr ymgeisir amdanynt yn berthnasol i'r cynllun. Gallant fod yn gysylltiedig â materion sy'n angenrheidiol i gefnogi'r cynllun – er enghraifft, darparu safle parcio a theithio mewn cysylltiad â chynllun newydd am dramffordd neu fws a arweinir.

C6 A yw'r gorchymyn DTG yn cynnwys caniatâd cynllunio?

Nid yw gorchymyn DTG ynddo'i hun yn rhoi caniatâd cynllunio. Ond gall y sefydliad sy'n ymgeisio am y gorchymyn ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad a ddisgrifir yn y gorchymyn.

Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd cynllunio dim ond pe byddai'n penderfynu gwneud y gorchymyn DTG. Byddai'n gwneud hynny ar yr un pryd â gwneud y gorchymyn, a gall atodi amodau ato. Ar y llaw arall, gall y sefydliad sy'n ymgeisio am orchymyn DTG ymgeisio am ganiatâd cynllunio, ar wahân, i'r awdurdod cynllunio lleol (fel arfer y cyngor dosbarth neu unedol).

Efallai na fydd angen caniatâd cynllunio ar rai mathau o waith, fel gosod trac rheilffordd a thramffordd newydd ar system drafnidiaeth sydd eisoes yn bodoli.

C7 Beth am ganiatâd adeilad rhestredig a mathau eraill o ganiatâd?

Weithiau mae angen ar gynllun ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth neu fath arall o ganiatâd yn ogystal â gorchymyn DTG. Os felly, mae'r sefydliad sy'n ymgeisio am y gorchymyn DTG fel arfer yn ymgeisio am y mathau hyn o ganiatâd ar yr un pryd ag ymgeisio am y gorchymyn.

Lle bo'r ceisiadau gwahanol (ond cysylltiedig) yn mynnu penderfyniadau gan wahanol Ysgrifenyddion Gwladol, mae'r adrannau Llywodraeth dan sylw'n cysylltu â'i gilydd i sicrhau bod yr holl broses wedi'i chydlynu.

C8 Beth y mae cais am orchymyn DTG yn ei olygu?

Mae'n rhaid i geisiadau am orchmynion DTG, a gwrthwynebiadau iddynt, ddilyn Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd – Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules. Os hoffech gopi o'r fersiwn diweddaraf (2006) o'r Rheolau maent ar gael o'r Llyfrfa Cyf; mae'r manylion cyswllt yn yr ateb i C39, gan ddyfynnu SI 2006 rhif 1466. Neu gellir gweld y Rheolau ar-lein ar http://www.opsi.gov.uk.

Mae'r Rheolau'n nodi pa ddogfennau y mae'n rhaid eu hanfon gyda chais. Mae'r rhain yn amrywio yn ôl y math o orchymyn yr ymgeisir amdano. Dyma'r dogfennau nodweddiadol y mae eu hangen ar gyfer cynnig sy'n ymwneud â gweithfeydd:

- gorchymyn drafft a memorandwm esboniadol;
- datganiad cryno am nodau'r cynigion;
- adroddiad yn crynhoi'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan yr ymgeisydd;
- cynlluniau a thrawstoriadau;
- datganiad amgylcheddol;
- llyfr cyfeirio, gan gynnwys enwau perchenogion a deiliaid y tir i'w brynu'n orfodol;
- amcangyfrif o gostau'r gweithfeydd arfaethedig; a'r
- trefniadau ariannu.

Mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n ymgeisio am y gorchymyn ('yr ymgeisydd') drefnu i'r dogfennau hyn fod ar gael i'r cyhoedd eu gweld, yn rhad ac am ddim. Fel arfer, byddai hyn yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfa'r sefydliad ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus lleol. Rhoir manylion yn yr hysbysiadau am y cynllun (gweler C9 isod).

C9 Sut y byddaf yn gwybod bod sefydliad wedi ymgeisio am orchymyn DTG?

Pan fydd sefydliad yn ymgeisio am orchymyn DTG, mae'n rhaid iddo hysbysebu hyn mewn papurau newydd lleol. Os yw'r cynllun yn cynnwys gweithfeydd, rhaid hefyd iddo roi hysbysiadau yn y safle ac ar hyd llwybr y gweithfeydd.

Mae'n rhaid iddynt anfon hysbysiad yn uniongyrchol at yr holl berchenogion a'r deiliaid y bydd prynu'r eiddo'n orfodol yn effeithio arnynt, ac at rai pobl a sefydliadau eraill a nodir yn y rheolau.

Ar gyfer cynllun sy'n fawr neu'n bwysig, mae'n debygol y bydd erthyglau amdano yn y wasg leol. Gall fod hefyd cyfarfodydd neu arddangosfeydd lleol.

Rhan 2 – Lleisio eich barn

C10 Sut y gallaf wrthwynebu cais am orchymyn DTG?

Mae hysbysiadau'r cais (gweler C9) yn nodi dyddiad cau ar gyfer anfon unrhyw wrthwynebiad, neu sylwadau eraill, at yr Ysgrifennydd Gwladol, ac yn nodi'r cyfeiriad y dylech ysgrifennu ato.

Mae'n rhaid i'r amser a ganiateir yn yr hysbysiadau fod o leiaf 6 wythnos wedi dyddiad y cais. Gelwir hyn 'y cyfnod gwrthwynebu'. Gellir estyn y cyfnod hwn, er enghraifft i ganiatáu am wyliau cyhoeddus.

Os ydych chi'n gwrthwynebu, mae'n rhaid i'ch gwrthwynebiad:

- roi'r rhesymau am eich gwrthwynebiad;

- bod yn ysgrifenedig (gall hyn gynnwys negeseuon ffacs ac e-byst);
- dweud pwy sy'n gwrthwynebu;
- rhoi cyfeiriad y dylid anfon gohebiaeth bellach ato; a
- chyrraedd yr Ysgrifennydd Gwladol cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Pan fyddwch chi'n gwrthwynebu cais am orchymyn DTG, **ysgrifennwch yn glir** – gan nodi eich enw a'ch cyfeiriad mewn llythrennau bras os ydych chi'n ysgrifennu eich llythyr â llaw.

Sylwer bod rhaid i ni anfon copi o'ch gwrthwynebiad at yr ymgeisydd, er tegwch. Efallai hefyd y rhown gopïau i eraill os byddant yn gofyn (gan gynnwys unrhyw wybodaeth bersonol sydd ynddo). Os aiff yr achos i ymchwiliad cyhoeddus, anfonir eich gwrthwynebiad at yr arolygydd sy'n cynnal yr ymchwiliad a bydd ar gael i'w weld mewn llyfrgell o ddogfennau ymchwiliad.

Ysgrifennwn atoch i roi gwybod ein bod wedi cael eich gwrthwynebiad a rhown rif cyfeirnod i chi. Byddwn yn cadw manylion eich gwrthwynebiad ar gronfa ddata, a ddefnyddiwn yn unswydd ar gyfer gohebiaeth mewn cysylltiad â'r cais am orchymyn DTG.

Gallwch anfon deisebau yn erbyn cais at yr Ysgrifennydd Gwladol. Cânt eu trin fel un gwrthwynebiad a wnaed gan y sawl neu'r grŵp a drefnodd y ddeiseb. Derbynnir llythyrau a lofnodir yn unigol fel gwrthwynebiadau unigol.

Sylwer y penderfynir ynghylch ceisiadau am orchymyn DTG yn gyfan gwbl ar sail rhinweddau'r dadleuon ac nid trwy gymharu nifer y llythyrau gwrthwynebu a chefnogi a geir.

Os hoffech ysgrifennu llythyr cefnogi, gweler C15.

C11 Beth yw terfynau amser statudol?

Er mwyn i'r gweithdrefnau fod yn ddisgybledig, ceir terfynau amser ar gyfer yr amryw gamau y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a phawb arall dan sylw eu dilyn. Nodir y rhain yn Rheolau'r Weithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau ac – os cynhelir ymchwiliad cyhoeddus lleol – yn Rheolau'r Weithdrefn Ymchwiliadau (gweler C8).

Nodir y prif derfynau amser yn yr atebion yn y canllaw hwn. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ymestyn y dyddiadau cau os yw'n ystyried bod angen gwneud hyn, ac os felly byddwn yn rhoi gwybod i bawb sydd â diddordeb.

C12 Pwy yw gwrthwynebwr statudol?

'Gwrthwynebwr statudol' fel arfer yw rhywun y gellir prynu ei dir, neu ei hawliau mewn tir, yn orfodol o dan y gorchymyn DTG, ac sy'n gwrthwynebu yn unol â'r rheolau. Gallai hwn fod yn berchennog, yn ddeiliad prydles, yn feddiannwr neu'n denant y tir (neu unrhyw adeilad arno).

Byddai unrhyw awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle byddai unrhyw weithfeydd yn cael eu gwneud yn wrthwynebwr statudol hefyd pe byddai'n gwrthwynebu'r cais.

Os ydych chi'n wrthwynebwr statudol, mae'r hawliau canlynol yn berthnasol.

- Os dymunwch, gall eich gwrthwynebiad gael ei glywed gerbron rhywun a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fe'ch holwn am hyn pan fyddwn yn cydnabod eich gwrthwynebiad. Fodd bynnag, ni chewch eich clywed yn breifat. Os oes angen, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn trefnu naill ai ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawiad llai ffurfiol (ond cyhoeddus o hyd).

- Os cynhelir ymchwiliad cyhoeddus, p'un ai y gofynnoch amdano neu beidio, mae hawl gennych siarad ynddo.
- Gallwch ofyn i'r arolygydd ymweld â'r safle yn ystod neu ar ôl ymchwiliad, gyda chi neu'ch cynrychiolydd ac o leiaf un cynrychiolydd yr ymgeisydd. Fodd bynnag, mae arolygwyr yn ymweld â'r safle o leiaf unwaith yn ôl yr arfer.
- Os byddwch chi'n llwyddo (neu lwyddo'n rhannol) i wrthwynebu'r pryniant gorfodol arfaethedig o'ch tir, dyfernir costau i chi fel arfer (gweler C39).

C13 Beth petai fy ngwrthwynebiad yn hwyr?

Efallai bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn barod i dderbyn gwrthwynebiad a wneir ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Fodd bynnag ni fyddai'n dymuno oedi'r gweithdrefnau oherwydd hynny, ac efallai na chewch rywfaint o'r arweiniad a roir yng ngwahanol gyfnodau'r gweithdrefnau. Efallai hefyd na chewch chi rai o fanteision bod yn 'wrthwynebwr statudol'.

Fe'ch cynghorir felly i wneud unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu – er eich lles chi ac er tegwch i'r bobl eraill dan sylw.

C14 Beth y gallaf ei gyflawni drwy wrthwynebu?

Ystyrir pob gwrthwynebiad a sylwadau eraill yn ofalus cyn gwneud penderfyniad ynghylch gorchymyn DTG. Nid yw'r canlyniad yn anochel o gwbl. Yn y gorffennol, mae gorchmynion wedi cael eu gwrthod neu eu newid, neu wedi cael amodau ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio cysylltiedig, o ganlyniad i wrthwynebiadau.

C15 Sut y gallaf gefnogi cais am orchymyn?

Gallwch gefnogi cais am orchymyn DTG yr union yr un ffordd ag y gallwch ei wrthwynebu – gweler yr ateb i C10. Dylech ddarparu'r un wybodaeth, ac yn yr un ffordd, ag a nodir yn yr ateb hwnnw.

Cyhyd â'ch bod yn bodloni'r gofynion hynny, ystyrir eich llythyr yn rhan o'r broses DTG. Anfonir copi at yr ymgeisydd, ac efallai y'i datgelir i eraill.

C16 Beth petawn yn cefnogi cynllun, ond yn gwrthwynebu rhan ohono?

Nid yw'n anghyffredin i bobl gefnogi cynllun yn gyffredinol, ond gwrthwynebu rhan ohono sy'n effeithio ar eu buddiannau eu hunain. Os felly, caiff eu llythyr eu trin fel gwrthwynebiad.

Ar adegau, mynegir sylwadau mewn ffordd niwtral – gan ymholi efallai am effaith rhan o orchymyn, neu wneud nifer o bwyntiau nad yw'n ymddangos eu bod yn cefnogi nac yn gwrthwynebu gorchymyn. Ystyrid y llythyrau hyn yn rhan o'r broses ymgeisio yn yr un ffordd ag unrhyw lythyrau gwrthwynebu a chefnogi.

C17 Beth yw rôl Uned Gorchmynion y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd (DTG)?

Derbyniwn wrthwynebiadau a llythyrau eraill ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, ac rydym yn cynnal y gweithdrefnau dilynol ar ei ran/ei rhan. Rydym hefyd yn prosesu ceisiadau ar gyfer cynlluniau yng Nghymru, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru – ond y Cynulliad sy'n penderfynu ynghylch yr achosion hyn yn y pen draw.

Rydym yn ddiduedd ac felly rydym yn niwtral pan fyddwn yn ymdrin ag ymgeisydd, gwrthwynebwyr a chefnogwyr y gorchymyn DTG. Ein nod yw sicrhau bod y gweithdrefnau'n cael eu cynnal mewn modd teg a phriodol.

Byddwn yn falch o gynnig arweiniad ar y gweithdrefnau, ond ni allwn drafod rhinweddau achos.

Rhan 3 – Y camau nesaf

C18 Beth sy'n digwydd ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu?

Os nad oes unrhyw wrthwynebiad i'r cais, gall yr Ysgrifennydd Gwladol symud ymlaen i roi ei benderfyniad/ei phenderfyniad.

Os cafwyd gwrthwynebiad i gais, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu, ymhen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, cynnal ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawiad, neu gynnal 'cyfnewid cynrychiolaethau ysgrifenedig' rhwng pawb dan sylw. Eglurir y gwahanol weithdrefnau hyn yn fanylach dros yr ychydig dudalennau nesaf.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol benderfynu ymestyn y cyfnod 28-diwrnod hwnnw os oes rheswm da am wneud hynny. Er enghraifft, mae ymgeiswyr yn gofyn weithiau am fwy o amser i gyd-drafod â gwrthwynebwyr, i weld a allant eu perswadio i dynnu eu gwrthwynebiad yn ôl (a allai effeithio ar y dewis o weithdrefn).

Os oes llawer o wrthwynebiadau, neu os yw'r achos yn codi problemau cymhleth, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn debygol o drefnu i ymchwiliad cyhoeddus gael ei gynnal gan arolygydd. Mae'n debygol hefyd y cynhelir ymchwiliad cyhoeddus lle mae

gwrthwynebwr statudol yn arfer ei hawl i gael ei glywed gan ei fod yn gwrthwynebu pryniant gorfodol.

Mae gwrandawiad yn ddewis llai ffurfiol nag ymchwiliad cyhoeddus. Mae'n debycach i drafodaeth o amgylch bwrdd (gweler C21).

Os nad oes llawer o wrthwynebwyr, os nad oes unrhyw wrthwynebwr statudol eisiau cael ei glywed, ac os nad yw'n ymddangos bod yr achos yn codi problemau cymhleth, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnal proses cyfnewid cynrychiolaethau ysgrifenedig (gweler C22).

Ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu pa weithdrefn i'w dilyn, ysgrifennwn at yr ymgeisydd, y gwrthwynebwyr ac unrhyw un arall sydd wedi gwneud sylwadau a dweud wrthynt.

Os cynhelir ymchwiliad neu wrandawiad, mae'r ymgeisydd yn hysbysebu'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad mewn papurau newydd lleol.

C19 Beth sy'n digwydd os yw cynllun o arwyddocâd cenedlaethol?

Ar adegau prin iawn, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried bod cynllun mor fawr ac mor bwysig ei fod o arwyddocâd cenedlaethol. Os felly, mae gweithdrefn arbennig yn berthnasol. Rhaid cyfeirio'r cynigion at y Senedd i gymeradwyo (egwyddor y cynllun) cyn gellir cynnal ymchwiliad cyhoeddus.

Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu ymhen 56 diwrnod o dderbyn cais a yw o arwyddocâd cenedlaethol ac, os felly, rhoi cyhoeddiad i'r perwyl hwnnw. Dywedwn wrth bawb dan sylw am y gweithdrefnau sy'n dilyn.

Os yw dau Dŷ'r Senedd yn caniatáu penderfyniad sy'n cymeradwyo'r cynigion, aiff y cais ymlaen i ymchwiliad. Ni fyddai'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y gorchymyn er bod y Senedd wedi cymeradwyo'r cynllun mewn egwyddor. Ar y llaw arall, pe byddai'r cynigion yn cael eu gwrthod gan y naill Dŷ, ni allai'r cais symud ymlaen o gwbl.

C20 Beth yw ymchwiliad cyhoeddus?

Mae ymchwiliad cyhoeddus, gerbron arolygydd, yn ffordd o ganiatáu i bawb dan sylw gyflwyno eu hachosion ar lafar, a phrofi dadleuon pobl eraill, mewn fframwaith strwythuredig.

Mae gan rai pobl, fel yr ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr statudol, yr hawl i roi tystiolaeth a chroesholi pobl eraill. Gall unrhyw un arall wneud hynny gyda chaniatâd yr arolygydd. Mae'n arferol i arolygwyr ganiatáu i unrhyw un siarad sydd â rhywbeth perthnasol i'w ddweud.

Eglurir y gweithdrefnau cyn ac ar ôl yr ymchwiliad ymhellach yn Rhan 4. Cynlluniwyd y gweithdrefnau cyn ymchwiliad i sicrhau y gall pawb gyfnewid cymaint o wybodaeth â phosibl cyn i'r ymchwiliad agor. Mae hyn yn galluogi'r ymchwiliad i ganolbwyntio ar brif faterion y ddadl.

Cynhelir ymchwiliadau mewn lleoliad lleol addas, er gall fod angen cynnal yr ymchwiliad mewn sawl lleoliad os yw cynlluniau'n effeithio ar ardal eang iawn.

C21 Beth yw gwrandawiad?

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol drefnu gwrandawiad yn lle ymchwiliad. Cynhelir gwrandawiadau yn gyhoeddus o hyd ond fel arfer maent fel trafodaeth o amgylch bwrdd, a arweinir gan yr arolygydd. Dylent alluogi pawb i gyflwyno eu hachos mewn

awyrgylch mwy hamddenol a llai ffurfiol nag ymchwiliad. Yn yr un modd ag ymchwiliad, byddai'r arolygydd yn darparu adroddiad wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol, gan roi argymhellion.

Fodd bynnag, nid yw gwrandawiad yn debygol o fod yn addas os oes llawer o bobl dan sylw, neu os oes materion technegol cymhleth dan sylw y mae'n debygol y bydd angen eu profi drwy groesholi.

Gan ei bod yn debygol na fydd llawer iawn o achosion DTG y bydd gwrandawiad yn addas ar eu cyfer, nid yw'r canllaw hwn yn darparu arweiniad manwl ar y weithdrefn. Pe penderfynid cynnal gwrandawiad, byddem yn ysgrifennu at bawb dan sylw i roi gwybod iddynt am y weithdrefn.

C22 Beth yw sylwadau ysgrifenedig?

Os nad oes llawer iawn o wrthwynebiadau, ac os nad oes unrhyw wrthwynebwr statudol yn dymuno defnyddio ei hawl i gael ei glywed, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ddelio â'r cais ar sail sylwadau ysgrifenedig yn unig. Gwahoddir i'r ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr roi sylwadau ysgrifenedig yn eu tro am ddadleuon y llall. Fel arfer mae hyn yn llwybr cyflymach i benderfyniad ac mae'n costio llai o arian ac amser i bawb dan sylw.

Rhown wybod i bawb dan sylw ein bod yn prosesu'r achos yn y modd hwn, a gofynnwn i'r ymgeisydd roi sylwadau am bob gwrthwynebiad ymhen 28 diwrnod. Yna anfonwn sylwadau'r ymgeisydd at y gwrthwynebwyr, sy'n cael 21 diwrnod i roi unrhyw sylwadau pellach. Os nad oes gan y gwrthwynebwyr unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud, gall yr Ysgrifennydd Gwladol symud ymlaen i wneud penderfyniad am y cais.

Os bydd unrhyw wrthwynebydd yn rhoi sylwadau pellach, caiff yr ymgeisydd gyfle pellach i ymateb. Os na fydd yr ymgeisydd eisiau ychwanegu unrhyw beth arall, yna mae'r weithdrefn yn cau (heblaw bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn mynnu mwy o wybodaeth). Fodd bynnag, os bydd yr ymgeisydd yn codi unrhyw faterion newydd, byddem yn anfon y rhain at y gwrthwynebwyr, gan osod dyddiad cau ar gyfer sylwadau pellach.

Ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol eisiau i'r broses bara'n hirach nag sydd angen drwy gynnal proses gyfnewid ddiddiwedd. Sylwer y gellir diystyru unrhyw sylwadau a geir y tu allan i'r terfynau amser penodedig.

C23 A ganiateir defnyddio e-bost?

Wrth anfon llythyrau a dogfennau eraill dan reolau'r weithdrefn, gallwch wneud hyn drwy e-bost neu ddulliau electronig eraill – ar yr amod bod y sawl sy'n derbyn y ddogfen yn cytuno i hyn. Yn yr un modd, os yw'r ymgeisydd yn dymuno anfon dogfen atoch chi'n electronig, mae'n rhaid iddo gael eich caniatâd chi yn gyntaf.

Os cytunwch i gael dogfen yn electronig, ond pan gewch chi'r ddogfen mae'n anaddas (er enghraifft, rydych chi'n ei chael yn anodd ei darllen neu ei hargraffu) gallwch, ymhen 7 diwrnod, gofyn am gael anfon copi papur atoch.

Ar ein rhan ni, rydym fel arfer yn fodlon derbyn llythyrau mewn e-bost, gan fod hyn yn helpu arbed amser a chostau. Ond os hoffech anfon dogfen hwy atom mewn e-bost, neu ar ddisg cyfrifiadur, dylech sicrhau gyda ni cyn gwneud hynny.

Os nad oes angen ymchwiliad cyhoeddus ar yr achos sydd o ddiddordeb i chi, ewch i Ran 5.

Rhan 4 – Ymchwiliadau cyhoeddus

C24 Sut ydw i'n ymddangos mewn ymchwiliad cyhoeddus?

Pan fyddwn yn cydnabod eich gwrthwynebiad neu'ch sylw, gofynnwn i chi a hoffech ymddangos (hynny yw, cyflwyno tystiolaeth lafar) mewn ymchwiliad, os caiff un ei gynnal.

Os dywedwch wrthym yr hoffech, ac y caiff ymchwiliad ei gynnal, gofynnwn i chi ddarparu datganiad ysgrifenedig o achos (gweler C25) ymhen 6 wythnos (neu unrhyw gyfnod hwy y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ei ganiatáu).

Os penderfynwch yn ddiweddarach nad ydych eisiau ymddangos yn yr ymchwiliad wedi'r cyfan, gallwch anfon mwy o dystiolaeth ysgrifenedig at yr arolygydd o hyd – cyn i'r ymchwiliad agor os oes modd.

C25 Beth yw datganiad o achos?

Datganiad o achos yw datganiad ysgrifenedig sy'n cynnwys manylion llawn yr achos rydych chi eisiau ei gyflwyno i'r ymchwiliad. Dylai hyn gynnwys rhestr o unrhyw ddogfennau y bwriadwch gyfeirio atynt neu eu defnyddio'n dystiolaeth, a chopïau o'r dogfennau hynny (neu ddetholiadau perthnasol yn unig, os yw'r dogfennau'n hir).

Mae'n rhaid i chi anfon eich datganiad o achos atom ni ac at yr ymgeisydd, sy'n gwneud pob datganiad ar gael i'w arolygu. O ganlyniad, byddwch chi'n cael copi o ddatganiad yr ymgeisydd. Mae unrhyw un y gofynnir iddo ddarparu datganiad o achos ac sy'n gwneud hynny yn cael ymddangos yn yr ymchwiliad.

Os hoffech roi sylwadau am ddatganiad rhywun arall, gallwch wneud hynny ar unrhyw adeg hyd at 6 wythnos cyn i'r ymchwiliad agor. Dylech anfon unrhyw sylwadau pellach at yr Ysgrifennydd Gwladol (yn y cyfeiriad ar ddiwedd y Cyflwyniad), at yr ymgeisydd, ac at y sawl rydych yn trafod ei ddatganiad (os nad yr ymgeisydd mohono). Fel arall, gallwch wneud sylwadau ychwanegol mewn prawf tystiolaeth (gweler C30) neu yn yr ymchwiliad ei hun.

Diben cyfnewid datganiadau o achos yn y modd hwn cyn ymchwiliad yw galluogi pawb i ymgyfarwyddo â dadleuon yr ochr arall fel bod pawb wedi paratoi'n dda ar gyfer yr ymchwiliad. Mae hyn yn helpu gwneud y defnydd gorau o amser yn yr ymchwiliad, a all ganolbwyntio felly ar brif faterion y ddadl.

Os ystyriwch eich bod eisoes wedi nodi eich achos yn llawn yn eich llythyr gwrthwynebu, gallech ofyn i'ch llythyr gwrthwynebu gael ei ddefnyddio fel eich datganiad o achos. Serch hynny, cofiwch po lawnaf y datganiadau o achos, y mwyaf y mae hyn yn helpu'r ymchwiliad. **Nid oes unrhyw beth i'w ennill drwy atal dadleuon neu dystiolaeth yn bwrpasol nes bod yr ymchwiliad yn agor.**

C26 A yw'r ymchwiliad yn ymdrin â materion cynllunio?

Os daw'r cais am orchymyn DTG gyda chais am ganiatâd cynllunio (gweler C6), ystyrir hwn yn yr un ymchwiliad cyhoeddus.

Bydd yr arolygydd eisiau clywed tystiolaeth am fanteision cynllunio'r cynllun ac am unrhyw amodau y dylid eu gosod. Bydd ei adroddiad/ei hadroddiad yn cynnwys casgliadau ac argymhellion sy'n nodi a ddylid rhoi caniatâd cynllunio neu beidio, a pha amodau y dylid eu gosod os rhoir caniatâd.

C27 Beth am ganiatâd adeilad rhestredig a mathau eraill o ganiatâd?

Gall yr ymchwiliad hefyd ystyried unrhyw geisiadau cysylltiedig eraill, fel cais am ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth.

Gellir penodi aseswr i gynghori'r arolygydd am y mathau hyn o ganiatâd yn yr ymchwiliad. Os felly, gall yr aseswr ofyn cwestiynau yn yr ymchwiliad ac ysgrifennu adroddiad i'r arolygydd wedyn ynghylch a ddylid rhoi'r caniatâd neu beidio.

C28 Beth yw cyfarfod cyn ymchwiliad?

Os yw ymchwiliad DTG yn debygol o bara cryn dipyn, mae'n ddigon tebyg y bydd yr arolygydd eisiau cynnal cyfarfod cyn ymchwiliad. Cynhelir hwn fel arfer yn yr un lleoliad â'r ymchwiliad, ac fel arfer rhyw ddeufis cyn i'r ymchwiliad agor, er bod hyn yn gallu amrywio.

Mae'r cyfarfod yn bennaf er mwyn trafod y trefniadau ymarferol ar gyfer yr ymchwiliad ac i osod rhaglen ymchwiliad. **Ni all fod unrhyw drafodaeth yn y cyfarfod am fanteision y cais nac am unrhyw ganiatâd cysylltiedig.**

Gwahoddir unrhyw un sy'n bwriadu ymddangos yn yr ymchwiliad cyhoeddus i fynychu'r cyfarfod hwn, a bydd o gymorth iddynt wneud hynny. Mae hefyd yn helpu'r arolygydd i gynllunio'r ymchwiliad os yw'n gwybod pwy sydd eisiau siarad am ba faterion, a fyddant yn galw ar dystion, pa mor hir y gall eu tystiolaeth gymryd ac ati. Mae swyddog rhaglen yr ymchwiliad (gweler C29) yn cylchredeg agenda ar gyfer y cyfarfod cyn ymchwiliad ymlaen llaw.

C29 Pwy yw'r swyddog rhaglen?

Heblaw am ymchwiliadau byr iawn, penodir swyddog rhaglen fel arfer i helpu'r arolygydd baratoi ar gyfer yr ymchwiliad, gan gynnwys cofnodi dogfennau ymchwiliad a'u hanfon allan, a chynorthwyo'r arolygydd yn yr ymchwiliad ei hun.

Ar ôl cael ei benodi, mae'r swyddog rhaglen yn gweithio i'r arolygydd, ac felly mae gofyn iddo weithredu mewn modd niwtral.

C30 Beth yw datganiad o faterion?

Cyn yr ymchwiliad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn darparu rhestr o'r materion y mae eisiau cael gwybod yn benodol amdanynt er mwyn dod i benderfyniad. Mae hyn er mwyn helpu'r ymchwiliad i ganolbwyntio ar y materion allweddol ac fe'i gelwir yn 'ddatganiad o faterion'.

Disgwylir i'r arolygydd sicrhau bod y materion hyn yn cael eu harchwilio ac yr adroddir yn eu cylch. Ond nid yw hyn yn atal yr arolygydd rhag clywed tystiolaeth am unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol yn ei farn ef/ei barn hi.

Anfonwn y datganiad o faterion at y rheiny sydd eisiau ymddangos yn yr ymchwiliad ac at bob gwrthwynebwr statudol. Os na chewch gopi, gallwch gael copi gennym ni neu gan swyddog rhaglen yr ymchwiliad.

C31 Beth yw profion tystiolaeth?

Yn aml, mae pobl sy'n bwriadu siarad mewn ymchwiliad yn dymuno darllen o ddatganiad a baratowyd – sef 'prawf tystiolaeth'. Yn wahanol i ddatganiad o achos, mae hwn yn nodi'r hyn y mae rhywun yn bwriadu ei ddweud air am air. Os bwriadwch gyflwyno prawf tystiolaeth, mae'n rhaid i chi ei anfon at yr arolygydd ac at yr ymgeisydd heb fod yn hwyrach na

4 wythnos cyn i'r ymchwiliad agor (neu unrhyw ddyddiad diweddarach y gall yr arolygydd ei osod).

Os yw'ch prawf tystiolaeth yn hwy na 1,500 gair, mae'n rhaid i chi anfon crynodeb ysgrifenedig gydag ef. Mae'n rhaid hefyd i chi amgáu copi o unrhyw ddogfennau y sonioch amdanynt ynddo (neu ddetholiadau perthnasol) **oni bai** y cafodd y rhain eu cyflenwi eisoes gyda'ch datganiad o achos, neu ddatganiad o achos rhywun arall (gweler C25).

Fel arfer, trafodir trefniadau ar gyfer anfon profion tystiolaeth yn y cyfarfod cyn ymchwiliad.

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod pob prawf tystiolaeth a chrynodeb ar gael i'w harolygu. Gofynnir hefyd i ymgeiswyr anfon copi o'u prawf tystiolaeth a'u crynodeb at unrhyw wrthwynebwr statudol ac at unrhyw un arall sydd wedi darparu datganiad o achos.

Y rheswm am y trefniant hwn yw arbed amser yn yr ymchwiliad. Mae'n golygu y bydd angen i bobl a oedd wedi bwriadu'n flaenorol ddarllen datganiad parod hir ddarllen crynodeb ohono yn unig. (Gallwch ddarllen **dim ond** y crynodeb oni fydd yr arolygydd yn caniatáu fel arall).

Fodd bynnag, gan fod y profion tystiolaeth llawn ar gael i'w harolygu cyn ac yn ystod yr ymchwiliad, cânt eu trin fel petaent wedi'u eu rhoi mewn tystiolaeth, a gellir gofyn cwestiynau amdanynt. Yn y modd hwn, nid yw unrhyw un dan anfantais.

C32 Beth sy'n digwydd mewn ymchwiliad cyhoeddus?

I raddau helaeth, yr arolygydd sy'n penderfynu pa weithdrefn i'w dilyn yn yr ymchwiliad. Bydd yr arolygydd eisiau sicrhau bod yr ymchwiliad yn rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol, a bod y rhai

sydd eisiau cyflwyno tystiolaeth yn cael cyfle teg i ddweud eu dweud.

Mae'r arolygydd yn nodi ym mha drefn y rhoir tystiolaeth ac y gofynnir cwestiynau. Fodd bynnag, yr ymgeisydd sy'n dechrau fel arfer ac sy'n cael yr hawl terfynol i ateb.

I sicrhau bod yr ymchwiliad yn rhedeg yn effeithlon, gall yr arolygydd atal rhywun rhag rhoi tystiolaeth neu groesholi os yw'n credu bod hyn yn amherthnasol neu'n ailadrodd yr hyn a ddywedwyd eisoes. Gall yr arolygydd ofyn hefyd i unrhyw un adael sy'n ymddwyn mewn ffordd aflonyddgar. Yn y naill sefyllfa, gall y sawl yr effeithir arno roi tystiolaeth ysgrifenedig cyn i'r ymchwiliad gau.

Mae gan yr arolygydd y pwer i ohirio (atal) yr ymchwiliad os oes angen – er enghraifft, os oes angen amser ar rywun i ystyried rhyw dystiolaeth newydd a gyflwynwyd. Mae'r arolygydd naill ai'n cyhoeddi yn yr ymchwiliad pryd a ble y bydd yn ailagor, neu'n rhoi hysbysiad rhesymol o'r trefniadau hyn.

C33 A oes angen cyfreithiwr arnaf yn yr ymchwiliad?

Nid oes rhaid i unrhyw un gael ei gynrychioli mewn ymchwiliad gan gyfreithiwr neu unrhyw gynrychiolydd proffesiynol arall. Eich cyfrifoldeb chi'n llwyr yw penderfynu a allai cyfreithiwr eich helpu i gyflwyno eich dadleuon yn fwy effeithiol.

Mae arolygwyr wedi arfer â chlywed tystiolaeth gan unigolion heb eu cynrychioli, y mae rhai ohonynt heb arfer â siarad mewn ymchwiliad cyhoeddus, ac maent yn caniatáu am hyn. Rhinweddau'r dadleuon sy'n bwysig iddynt hwy yn hytrach na phwy sy'n eu gwneud. Cynghorir i bwy bynnag sy'n rhoi tystiolaeth:

- gadw at y pwynt;
- bod mor gryno â phosibl;

- osgoi ailadrodd pwyntiau a wnaed eisoes; a
- sicrhau bod eu tystiolaeth yn berthnasol i'r pwnc a drafodir.

C34 Sut y byddaf yn gwybod pryd rwyf am ymddangos yn yr ymchwiliad?

Dylech gysylltu â'r swyddog rhaglen a all ddweud wrthych pryd fydd eich tro chi i roi tystiolaeth. Mae'r swyddog rhaglen hefyd yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'r amserlen.

C35 A fydd arolygydd yr ymchwiliad yn ymweld â'r safle?

Gall yr arolygydd ymweld â'r safle ar ei ben ei hun cyn neu yn ystod yr ymchwiliad.

Gall yr arolygydd hefyd, yn ystod neu ar ôl ymchwiliad, ymweld â safle gyda chynrychiolydd yr ymgeisydd ac unrhyw wrthwynebydd statudol (a rhaid iddo wneud hyn os bydd y bobl hynny'n gofyn iddo wneud). Fodd bynnag, ni cheir trafod rhinweddau'r achos yn ystod ymweliad safle.

C36 A allaf roi mwy o dystiolaeth yn ystod neu ar ôl yr ymchwiliad?

Os penderfynwch cyn i'r ymchwiliad gau eich bod eisiau ychwanegu at dystiolaeth a roesoch eisoes, gallwch wneud hyn yn ysgrifenedig neu, gyda chaniatâd yr arolygydd, ar lafar.

Os hoffech gyflwyno mwy o ddadleuon neu dystiolaeth ar ôl i'r ymchwiliad gau, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Ysgrifennydd Gwladol (drwy ysgrifennu at y cyfeiriad ar ddiwedd y Cyflwyniad) yn hytrach na'r arolygydd.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pwer i ddiystyru unrhyw gynrychiolaethau a geir ar ôl yr ymchwiliad. Fodd bynnag, pe

byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried bod y dystiolaeth newydd yn ddigon pwysig i effeithio ar y penderfyniad, byddai'n rhoi'r cyfle i eraill a ymddangosodd yn yr ymchwiliad i wneud sylwadau amdano. Mewn rhai amgylchiadau, gellir ailagor yr ymchwiliad, er bod hynny'n anghyffredin iawn.

C37 Beth petawn yn penderfynu tynnu fy ngwrthwynebiad yn ôl?

Rydych yn rhydd i dynnu eich gwrthwynebiad yn ôl ar unrhyw adeg hyd at y penderfyniad. Gall hyn ddigwydd yn aml o ganlyniad i gyd-drafodaethau â'r ymgeisydd. Os yw'r ymchwiliad yn dal i redeg, dylech ddweud wrth yr arolygydd. Os yw hyn ar ôl yr ymchwiliad, dylech ddweud wrthym cyn gynted â phosibl.

C38 Beth sy'n digwydd pan ddaw'r ymchwiliad cyhoeddus i ben?

Ar ôl i'r arolygydd gau'r ymchwiliad yn ffurfiol, bydd yn ysgrifennu adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae hwn yn crynhoi'r dadleuon a gyflwynwyd ac yn nodi casgliadau ac argymhellion yr arolygydd.

Nid oes un rheol bendant o ran pa mor hir y mae'n cymryd i arolygydd lunio adroddiad, gan fod hyn yn dibynnu ar ffactorau fel pa mor gymhleth yw'r achos ac am ba hyd y parhaodd yr ymchwiliad.

C39 A allaf hawlio fy nghostau am ymddangos yn yr ymchwiliad cyhoeddus?

Fel arfer disgwylir i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwiliad dalu eu costau eu hunain. Mae'r eithriadau prin i hyn fel a ganlyn.

Yn gyntaf, os oes rhywun yn ystyried bod rhywun arall wedi bod yn afresymol ac, o ganlyniad, wedi achosi iddo fynd i gostau dianghenraid, gall wneud cais am gostau. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, os yw rhywun, heb reswm da, yn achosi i ymchwiliad gael ei ohirio neu barhau'n ddianghenraid – megis trwy anfon datganiad o achos neu brawf tystiolaeth yn hwyr, neu drwy godi mater newydd yn afresymol yn hwyr yn yr achos.

Er mwyn hawlio costau yn ôl oherwydd ymddygiad afresymol, dylech ymgeisio i'r arolygydd cyn i'r ymchwiliad gau (heblaw eich bod yn honni bod rhywun wedi achosi'n afresymol i'r ymchwiliad gael ei ganslo yn hwyr yn yr achos; os felly, dylech ymgeisio ar unwaith i'r Ysgrifennydd Gwladol).

Mae'r arolygydd yn ystyried dadleuon y ddwy ochr ac yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd fel arfer yn gwneud y penderfyniad am gostau wrth benderfynu ynghylch y cais am orchymyn DTG. Os ymgeisiwch ar ôl yr ymchwiliad, byddem yn derbyn ar yr amod y gallwch ddangos rheswm da iawn am beidio ag ymgeisio'n gynt.

Yn ail, os ydych yn wrthwynebydd statudol a, phan wneir y penderfyniad DTG, rydych yn llwyddo (neu lwyddo'n rhannol) i wrthwynebu'r pryniant gorfodol arfaethedig o'r tir y mae i chi fudd ohono, byddai'r costau'n cael eu dyfarnu i chi fel arfer. Ysgrifennwn at unrhyw wrthwynebwyr statudol llwyddiannus pan gyhoeddir y penderfyniad DTG ac, ar yr un pryd, gwahoddwn yr ymgeisydd i ddweud a oes unrhyw reswm pam na ddylid rhoi costau.

Gallwch weld mwy o gyngor am ddyfarnu costau, gan gynnwys enghreifftiau o ymddygiad afresymol, yng Nghylchlythyr 3/94 a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth flaenorol (ISBN 0 11 551289 6). Gallwch gael copi o'r Llyfyrfa:

The Stationery Office Ltd
PO Box 29
Norwich
NR3 1GN.

Ffôn 0870 600 5522.
Gwefan: www.tso.co.uk/bookshop

Rhan 5 – Y penderfyniad

C40 Beth yw'r cyfnod penderfynu?

Y cyfnod penderfynu yw'r cyfnod:

- pan fydd yr arolygydd wedi adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol yn dilyn ymchwiliad neu wrandawiad; neu
- pan fydd gweithdrefn y cynrychiolaethau ysgrifenedig wedi dod i ben; neu
- pan fydd pob gwrthwynebiad wedi'i dynnu'n ôl,

a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol mewn sefyllfa i ystyried pa benderfyniad i'w wneud ynghylch y cais am orchymyn DTG.

Yn y cyfnod hwnnw, dylai fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddigon o wybodaeth i benderfynu ynghylch y cais (ac unrhyw gais cysylltiedig am ganiatâd cynllunio). Os felly, daw ef neu hi i benderfyniad a bydd yn nodi'r rhesymau amdano mewn llythyr penderfyniad. Anfonir y llythyr hwn at yr ymgeisydd ac at bobl eraill sydd â diddordeb yn y canlyniad.

Os cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus, anfonwn gopïau o gasgliadau ac argymhellion yr arolygydd gyda'r llythyr penderfyniad. Anfonwn hefyd gopi llawn o adroddiad yr arolygydd at unrhyw un sy'n gofyn amdano ymhen 4 wythnos o ddyddiad y penderfyniad.

Ar ôl cyhoeddi'r llythyr penderfyniad, trefnwn i hysbysiad o'r penderfyniad gael ei gyhoeddi yn y London Gazette, ac mae'r ymgeisydd yn trefnu i hysbysiad ymddangos mewn papurau newydd lleol. Yna caiff y gorchymyn DTG ei lofnodi, sy'n broses a elwir 'gwneud' y gorchymyn.

Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu rhoi caniatâd cynllunio i'r datblygiad arfaethedig, mae'n cyhoeddi cyfarwyddyd cynllunio pan wneir y gorchymyn. Mae'r cyfarwyddyd cynllunio yn debygol o gynnwys amodau.

Daw'r gorchymyn DTG i rym fel arfer 3 wythnos ar ôl iddo gael ei wneud. Bydd testun y gorchymyn ar gael ar wefan y Swyddfa Gwybodaeth Sector Cyhoeddus ar: http://www.opsi.gov.uk/stat.htm a gellir prynu copïau papur o'r Llyfrfa Cyf (gweler C39 am fanylion cyswllt).

C41 Beth yw llythyr 'bwriad'?

Weithiau, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried nad oes ganddo/ganddi ddigon o wybodaeth i ddod i benderfyniad gwbl wybodus – er bod ganddo/ganddi syniad da beth fydd y penderfyniad yn fwy na thebyg. Er enghraifft, efallai bod angen mwy o wybodaeth arno/arni am un agwedd benodol ar gynllun, neu agwedd o'r gorchymyn arfaethedig, cyn cyrraedd penderfyniad terfynol.

Os felly, gall yr Ysgrifennydd Gwladol benderfynu cyhoeddi llythyr i bawb dan sylw gan ddweud pa benderfyniad y mae'n 'bwriadu' ei wneud o'r wybodaeth sydd ar gael hyd yma, ond yn egluro bod angen mwy o wybodaeth arno/arni am fater neu faterion penodol. Gelwir hwn yn llythyr 'bwriad'. Nid yw'n llythyr penderfyniad.

C42 A oes rhaid i'r gorchymyn DTG gael ei gymeradwyo gan y Senedd?

Fel arfer, nid oes rhaid i orchmynion DTG gael eu cyflwyno i'r Senedd cyn y gallant ddod i rym.

Serch hynny, ar adegau prin iawn, mae'n rhaid i 'weithdrefn seneddol arbennig' ddigwydd cyn gall y gorchymyn DTG ddod i rym. Gall hyn godi gan nad oes unrhyw dir arall yn cael ei ddarparu ar gyfer man agored cyhoeddus y gellir ei gaffael yn orfodol o dan y gorchymyn DTG.

Pe byddai hynny'n digwydd, caiff ddau Dŷ'r Senedd y cyfle i ystyried y gorchymyn DTG. Os cwblheir y weithdrefn seneddol arbennig yn llwyddiannus, daw'r gorchymyn DTG i rym, ac fe gaiff ei argraffu a'i gyhoeddi yn y modd arferol.

C43 A allaf apelio yn erbyn y penderfyniad?

Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu gwneud gorchymyn DTG, gallwch wrthwynebu'r penderfyniad hwn yn yr Uchel Lys o dan adran 22 o'r DTG – ond dim ond ar bwyntiau cyfraith neu fethiant i ddilyn y weithdrefn gywir.

Gallwch wneud gwrthwynebiad cyfreithiol ar y sail nad yw'r penderfyniad o fewn pwerau'r DTG, neu fod unrhyw ofyniad a osodwyd gan neu o dan y DTG neu Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 heb gael ei fodloni. Mae'n rhaid i chi ymgeisio i'r Uchel Lys ymhen 6 wythnos o'r dyddiad y cyhoeddir hysbysiad y penderfyniad yn y London Gazette.

Os credwch fod gennych reswm i wrthwynebu'r penderfyniad yn y Llys, dylech gael cyngor cyfreithiol cyn cymryd unrhyw gamau. Gallai gwrthwynebiad aflwyddiannus arwain at ddyfarnu costau yn eich erbyn.

Mae penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn derfynol oni bai bod y Llys yn penderfynu fel arall (ac yn 'neilltuo'r penderfyniad).

C44 A allaf wrthwynebu penderfyniad i wrthod gorchymyn?

Os hoffech wrthwynebu penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i beidio â gwneud gorchymyn, gallwch ofyn am ganiatâd gan yr Uchel Lys i ddechrau achos adolygiad barnwrol.

Gellir cynnal adolygiad barnwrol o unrhyw gyfarwyddyd cynllunio hefyd.

Os hoffech ymgeisio i'r Llys am ganiatâd i adolygu penderfyniad, dylech gael cyngor cyfreithiol.

C45 Pa mor hir y mae'r broses gorchymyn DTG yn ei chymryd yn gyfan gwbl?

Mae hyn yn dibynnu'n bennaf pa mor gymhleth yw'r gorchymyn arfaethedig, sawl un sy'n ei wrthwynebu ac a oes ymchwiliad cyhoeddus yn cael ei gynnal.

Os cynhelir ymchwiliad cyhoeddus, gall fod yn 6 mis neu fwy wedi dyddiad y cais cyn i'r ymchwiliad agor. Mae hyd yr ymchwiliad ei hun yn dibynnu'n bennaf ar sawl un sydd eisiau siarad a pha mor gymhleth yw'r materion. Yna mae angen i'r arolygydd ysgrifennu adroddiad, ac mae angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr adroddiad a dod i benderfyniad. Mae hyn oll yn cymryd amser. Mae gweithdrefn y cynrychiolaethau ysgrifenedig fel arfer yn llwybr cyflymach i benderfyniad.

Yn y cyfnod penderfyniad, gweithiwn i'r graddfeydd amser targed canlynol ar gyfer cyhoeddi penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol:

- Os na wneir unrhyw wrthwynebiad, ymhen 3 mis o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.
- Os caiff pob gwrthwynebiad a wnaed ei dynnu'n ôl, ymhen 3 mis o'r dyddiad y tynnwyd y gwrthwynebiad olaf yn ôl.
- Os ymdrinnir â'r cais drwy gynrychiolaethau ysgrifenedig, ymhen 4 mis ar ôl diwedd y cyfnewid ysgrifenedig.
- Os cynhelir gwrandawiad, ymhen 4 mis o'r adeg y derbyniwn adroddiad y gwrandawiad.
- Os cynhelir ymchwiliad cyhoeddus, ymhen 6 mis o'r adeg y derbyniwn adroddiad yr arolygydd.

C46 Oni all y weithdrefn fod yn symlach ac yn gyflymach?

Er bod y weithdrefn yn ymddangos yn gymhleth, fe'i cynlluniwyd i fod yr un mor deg i ymgeiswyr gorchymyn DTG ac i'r rhai sy'n gwrthwynebu cais, drwy roi cyfle llawn i bawb gael dweud eu dweud.

Mae'r dyddiadau cau statudol yn sicrhau y gellir gwneud cynnydd heb i'r naill ochr ddefnyddio tactegau annheg i oedi'r weithdrefn. Mae'r rheolau ynghylch yr ymchwiliad cyhoeddus yn seiliedig ar y rhai a ddefnyddir ar gyfer ymchwiliadau cynllunio ac maent yn galluogi pob ochr i gymryd rhan mewn ymchwiliad effeithlon.

Nod y system yw sicrhau y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddod i benderfyniad agored, teg a diduedd sy'n rhoi ystyriaeth briodol i'r holl faterion perthnasol.

C47 A oes unrhyw wybodaeth arall ar gael am y weithdrefn gorchymyn DTG?

Gallwch weld canllaw llawer llawnach i weithdrefnau gorchymyn DTG ar ein gwefan ar: www.dft.gov.uk/strategy/twa. Gallwch ei gyrraedd drwy ddilyn y ddolen 'Guidance on TWA Procedures'. Mae copïau argraffedig ar gael gennym hefyd (gweler y Cyflwyniad am fanylion cyswllt).